Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Communities, Equality and Local Government Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

**Lesley Griffiths AC**
**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth**

26 Mehefin 2013

Annwyl Weinidog

**Masnachu mewn Pobl yng Nghymru**

Mae'r Pwyllgor wedi cwblhau darn byr o waith yn ddiweddar mewn perthynas â masnachu mewn pobl. Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb arbennig yn rôl y Cydgysylltydd Atal Masnachu mewn Pobl yng Nghymru; effeithiolrwydd gweithio aml-asiantaethol rhwng adrannau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a chyrff eraill, fel byrddau iechyd a'r heddlu; a rôl awdurdodau lleol o ran adnabod a chodi ymwybyddiaeth o fasnachu mewn pobl.

I gynorthwyo'r gwaith hwn, rydym wedi cysylltu â nifer o randdeiliaid allweddol i ofyn eu barn. Hefyd cynhaliwyd sesiynau tystiolaeth lafar gyda phaneli o randdeiliaid, yn ogystal ag un sesiwn gyda chi a'r Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth. Mae pob cyflwyniad ysgrifenedig yn ogystal â thrawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar 20 Tachwedd 2013 , 28 Tachwedd 2013 a 13 Mawrth 2014 ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol / Communities, Equality and Local Government CommitteeGwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service
Ffôn / Tel: 029 2089 8032
E-bost / Email : Pwyllgor.CCLlG@cymru.gov.uk

Mae nifer o faterion pwysig, a nodir isod, sydd wedi codi o'r sesiynau tystiolaeth hyn ac rydym yn eich gwahodd i'w hystyried.

Dylid nodi, yn ystod ein gwaith yn y maes hwn, cyhoeddwyd newidiadau o ran terminoleg gennych mewn perthynas â masnachu mewn pobl, er mwyn sicrhau bod yr iaith yn gydnaws â'r iaith a ddefnyddir mewn gwaith gan Lywodraeth y DU, a hefyd yn ehangach gan y cyfryngau. Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys disodli'r term 'masnachu mewn pobl' â'r gair 'caethwasiaeth', a chyfeirio at ddioddefwyr masnachu mewn pobl fel 'goroeswyr'. Mae'r dystiolaeth a gawsom wedi'i chyflwyno cyn gwneud y newidiadau hyn, ac felly, mae'r llythyr hwn yn defnyddio'r termau yn gyfnewidiol.

## 1. Ymwybyddiaeth a thystiolaeth

Mae'r dystiolaeth a gawsom yn nodi'n glir bod caethwasiaeth yn parhau i fod yn drosedd gudd nad yw'n cael ei nodi bob amser, ac mai newydd ddechrau y mae'r daith i sicrhau bod caethwasiaeth yn beth gelyniaethus yng Nghymru. Yn hyn o beth, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthym fod adnabod dioddefwyr yn her barhaus, ac mae angen i hyfforddiant aml-asiantaeth gael ei gefnogi gan ddiffiniadau a rennir, a chael dealltwriaeth gyffredinol o brosesau aml-asiantaeth, a defnydd cyson o'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM). Dadleuodd CLlLC y byddai hyn yn sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu cydnabod, ac nid yn cael eu trin fel troseddwyr am weithredoedd a gyflawnwyd dan orfodaeth masnachwyr.

Clywsom, er bod rhywfaint o waith wedi'i wneud o ran codi ymwybyddiaeth, bod bylchau'n parhau o ran gwybodaeth am y materion hyn a dealltwriaeth ohonynt, yn enwedig ymhlith gweithwyr proffesiynol rheng flaen mewn gwasanaethau cyhoeddus. Ar y pwynt hwn, dywedodd Barnardo's Cymru wrthym fod rhywfaint o godi ymwybyddiaeth a hyfforddiant wedi'i gyflawni eisoes o ran masnachu plant, drwy gwrs e-ddysgu gan Lywodraeth Cymru, a bod y Byrddau Lleol Diogelu Plant hefyd wedi darparu hyfforddiant yn lleol ar fasnachu plant mewn rhai ardaloedd. Maent yn awgrymu y byddai rhoi rheolaeth, cyfranogiad a mynediad fwy lleol i weithwyr proffesiynol ac ymarferwyr at rwydwaith broffesiynol o gymorth a chyngor yn cynorthwyo i hyrwyddo'r mentrau hyn.

Rydym yn pryderu rhywfaint am lefel yr ymwybyddiaeth o rôl y Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth ymhlith y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (PCCs), oherwydd roedd y dystiolaeth a gawsom gan ddau Gomisiynydd yn awgrymu bod angen mwy o ryngweithio rhyngddynt â'r Cydgysylltydd. Ar y pwynt hwn, dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer Gwent wrthym, fod y berthynas rhwng

y Cydgysylltydd â'r heddlu yn gadarnhaol iawn, ond "yn ôl pob tebyg bod angen cael mwy o ryngweithio rhwng y Cydgysylltydd Atal Masnachu Pobl a'r Comisiynydd o ran datblygu polisi, ac yn y dyfodol fod angen cryfhau'r cyswllt â gwasanaethau i ddioddefwyr a fydd yn dod o fewn cylch gwaith y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu o fis Hydref 2014." Roeddem yn falch o glywed bod y Comisiynydd wedi cysylltu â'r Cydgysylltydd Atal Masnachu Pobl i drafod y materion hyn.

Roeddem, fodd bynnag, yn arbennig o bryderus am yr ymateb gan y Comiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer Dyfed Powys, a ddywedodd nad oedd wedi clywed am y Cydgysylltydd Atal Masnachu Pobl.

Roeddem hefyd yn bryderus o glywed tystiolaeth am ddiffyg ymgysylltiad â rhai adrannau gwasanaethau cyhoeddus, iechyd ac addysg. Cytunwn â BAWSO yn hyn o beth, bod cydweithio gyda'r adrannau hyn yn hanfodol, oherwydd gallant fod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer dioddefwyr masnachu mewn pobl.

Deallwn fod mynd i'r afael â chaethwasiaeth yn cynnwys materion sydd wedi'u datganoli a materion nad ydynt wedi cael eu datganoli, sy'n amrywio o addysg ac iechyd, i gyfiawnder troseddol a mewnfudo. Croesawn y gwaith a wneir gan Lywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill i godi ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth. Fodd bynnag, rydym yn pryderu nad yw lefelau'r ymwybyddiaeth yn ddigonol o hyd, yn enwedig ymysg gweithwyr proffesiynol rheng flaen. Rydym o'r farn bod angen ymdrechion parhaus i sicrhau y bydd dioddefwyr caethwasiaeth sydd eu hunain yn rhoi gwybod i'r heddlu,  i weithiwr iechyd neu athro am y troseddau, yn cael ymateb cyson a phriodol. **Credwn y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cydweithio agosach rhwng y Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth a'r Comisiynwyr Heddlu a Troseddu a gweithwyr proffesiynol rheng flaen ym meysydd iechyd ac addysg.**

Clywsom dystiolaeth am rôl ganolog awdurdodau lleol wrth fynd i'r afael â masnachu mewn pobl. Amlygodd Bawso Gyngor Caerdydd fel enghraifft o arfer da, pan greodd Fforwm Atal Masnachu mewn Pobl Aml-Asiantaeth yn 2012. Nodwn fod Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ddinbych yn swyddog arweiniol o ran caethwasiaeth ar ran y Grŵp Arweinyddiaeth Gwasanaethau Cyhoeddus (PSLG) ac mai ei rôl yw codi ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth â Phrif Weithredwyr awdurdodau lleol eraill ledled Cymru.

Rydym yn croesawu'r cam o greu arweinydd o ran atal caethwasiaeth ar y Grŵp Arweinyddiaeth Gwasanaethau Cyhoeddus, a'r gwaith a wnaed hyd yma i godi ymwybyddiaeth. Credwn y dylid ymestyn yr egwyddor hon, fel bod gan bob awdurdod lleol swyddog arweiniol ar atal caethwasiaeth a all fod yn gyfrifol am ddatblygu'r agenda hwn.  **Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru annog pob**

**awdurdod lleol i bennu swyddog arweiniol cyfrifol o ran atal caethwasiaeth, ac y dylai'r person hwn fod yn unigolyn sydd â chyfrifoldebau Cabinet, fel y bydd ar lefel ddigon uchel yn y sefydliad i hyrwyddo newid.**

### *Ymgyrch gyhoeddusrwydd*

Nodwn eich tystiolaeth mewn perthynas ag ymgyrch gyhoeddusrwydd genedlaethol Llywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth am gaethwasiaeth. Er ein bod yn croesawu'r ymgyrch hon fel cam i godi ymwybyddiaeth, byddem yn hoffi cael rhagor o wybodaeth am ei heffeithiolrwydd, yn enwedig wrth i ni derbyn rhywfaint o dystiolaeth a oedd yn awgrymu y byddai codi ymwybyddiaeth drwy sefydliadau proffesiynol yn ddull mwy effeithiol. Rydym yn cydnabod eich tystiolaeth y gall fod yn "anodd monitro" effeithiolrwydd ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, ond cytunwn â chi fod hyn yn "rhywbeth y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru edrych arno."

Yn ychwanegol at hyn, dywedodd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu wrthym y dylai Llywodraeth Cymru fod yn wyliadwrus o lansio ymgyrch gyhoeddusrwydd heb iddynt fod wedi sefydlu’r strwythur a'r adnoddau i ymdopi ag unrhyw gynnydd dilynol mewn atgyfeiriadau.

**Rydym o’r farn y dylech sefydlu dull o fonitro effeithiolrwydd ymgyrch gyhoeddusrwydd Atal Caethwasiaeth Llywodraeth Cymru.**

**Mewn perthynas â phryderon ynghylch gallu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr i ymdopi â chynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau o ganlyniad i ymgyrch codi ymwybyddiaeth genedlaethol, hoffem gael sicrwydd gennych y bydd y gyllideb a ddyrannwyd i'r gwasanaethau hyn yn parhau i gael ei harolygu.**

### *Sylfaen dystiolaeth*

Nodwm mai un o brif amcanion strategol y Grŵp Arweinyddiaeth Atal Caethwasiaeth yw adeiladu sail tystiolaeth gan ddefnyddio cyfresi data sylfaenol ac eilaidd, i roi gwybod yn well i'r Grŵp Arweinyddiaeth am raddfa caethwasiaeth yng Nghymru.

Cytunwn â’r ymatebwyr, bod sylfaen dystiolaeth gryfach yn hanfodol er mwyn targedu adnoddau lle mae eu hangen fwyaf. Roeddem yn falch o glywed gan y Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth, ei fod wedi bod yn gweithio ar gyfres ddata eilaidd i gofnodi nifer y dioddefwyr, y tu hwnt i ffigurau swyddogol Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol Llywodraeth y DU.

**Hoffem gael y wybodaeth ddiweddaraf gennych am gynnydd y prosiect hwn. Yn ychwanegol at hyn, rydym yn credu y dylech wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r gyfres data eilaidd hon ac unrhyw ganlyniadau eraill sy'n deillio o'r prosiect hwn.**

## 2. Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth yng Nghymru

Nodwn mai Llywodraeth Cymru yw'r unig lywodraeth yn y DU i benodi Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth, gyda'r nod o sicrhau bod Cymru yn lle anghyfeillgar i gaethwasiaeth fodoli ynddi ac i gyd-drefnu'r cymorth gorau posibl i ddioddefwyr.

Clywyd tystiolaeth unfrydol bod sefydlu'r swydd Cydgysylltydd yn gam cadarnhaol. Dywedodd Bawso wrthym yn hyn o beth, mai prif gyflawniadau ac effeithiolrwydd y Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth hyd yma fu iddo gydlynu mentrau i fynd i'r afael â masnachu mewn pobl, drwy ffurfio grŵp arweinyddiaeth sy'n dwyn ynghyd gynrychiolwyr o asiantaethau allweddol (yr Heddlu, Iechyd, Addysg, y Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r trydydd sector).

O ran statws y Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth, nodwn fod y swydd hon bellach yn rhan o'r Tîm Cam-drin Domestig a Thrais yn erbyn Menywod ac Is-adran Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cymru. Er bod rhai pryderon a godwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch annibyniaeth y Cydgysyllydd, nid yw tystion eraill, gan gynnwys y deiliad swydd presennol, yn pryderu am hyn.

O ran adnoddau'r Cydgysylltydd, clywsom gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru bod y rôl "wedi cael adnoddau cymharol gyfyngedig i allu bwrw ymlaen â'r agenda atal caethwasiaeth i'r graddau sydd ei angen". **Rydym o'r farn y dylid rhoi mecanweithiau ar waith i sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael i'r Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth, yn ogystal â'r adnoddau ar gyfer gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr, yn cael eu monitro'n ofalus, a'u bod yn darparu gwerth am arian. Byddwn yn awyddus i ystyried y mater hwn â chi eto, fel rhan o'n hystyriaeth o gyllideb ddrafft y Llywodraeth ar gyfer 2015-16.**

### *Bil Caethwasiaeth Fodern Llywodraeth y DU*

Nodwn mai nod y Bil Caethwasiaeth Fodern sydd ar y gweill, ymhlith pethau eraill, yw creu swydd Comisiynydd Atal Caethwasiaeth newydd a chyd-drefnwyr rhanbarthol drwy'r DU. Cawsom rywfaint o dystiolaeth a oedd yn mynegi pryder

ynglŷn â diffyg eglurder o ran rôl y Comisiynydd yn y DU, a'r rhyngweithio rhyngddo â'r Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth yng Nghymru.

Wrth ymateb i'r pryderon hyn, dywedasoch wrthym fod Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at y Bil, a bod protocol rhwng y ddwy lywodraeth i gysoni gwaith newydd a gwaith presennol wedi cael ei drafod. Fodd bynnag, ar sail eich tystiolaeth, nid ydym yn argyhoeddedig bod Llywodraeth Cymru yn deall yn union sut y bydd y Bil Caethwasiaeth Fodern yn effeithio ar rôl y Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth yng Nghymru. **Credwn y dylech fynd ar drywydd hyn gyda Llywodraeth y DU fel mater o frys, a gofynnwn i chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni cyn gynted â phosibl.**

Rydym yn cefnogi cam i ddatblygu protocol gyda Llywodraeth y DU fel rhan o'r Bil Caethwasiaeth Fodern, pe bai ond fel ffordd o sicrhau nad effeithir yn andwyol ar swydd y Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth yng Nghymru gan ddarpariaethau'r Bil yn y DU. **Rydym yn credu y dylech barhau i fynd ar drywydd datblygu protocol o'r fath er mwyn sicrhau bod rolau'r Cydgysylltydd yng Nghymru a'r Comisiynydd yn y DU wedi'u diffinio'n glir, a'u bod yn ategu ei gilydd. Rydym yn gofyn i chi ein diweddaru ar y cynnydd ar y mater hwn.**

**Yn ychwanegol at hyn, byddem yn croesawu cael rhagor o wybodaeth am y trefniadau gwaith rhwng y Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth yng Nghymru ac asiantaethau rhyngwladol, a'r effaith y gallai darpariaethau'r Bil Caethwasiaeth Fodern eu cael ar y trefniadau hyn.**

Yn gysylltiedig â hyn, dywedasoch wrthym hefyd y gallai cyllid fod ar gael i Lywodraeth Cymru o ganlyniad i'r Bil Caethwasiaeth Fodern, ond bod y manylion eto i'w cwblhau. **Rydym yn gofyn i chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y trafodaethau yn hyn o beth.**

O gofio'r cynnig ar gyfer creu swydd Comisiynydd statudol y DU, rydym yn archwilio gyda thystion beth fyddai rhinweddau gwneud rôl y Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth yn statudol. Roedd rhywfaint o gefnogaeth ar gyfer hyn. Yn ystod ein sesiwn gyda chi, cadarnhawyd gennych nad oes dim cynlluniau i wneud rôl y Cydgysylltydd yn statudol. **O ystyried pwysigrwydd rôl Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth Cymru, credwn y dylech roi ystyriaeth bellach i wneud darpariaeth statudol ar gyfer hyn. Gallai darpariaeth o'r fath, ynghyd â phwerau statudol priodol, gryfhau'r rôl bresennol, a byddai'n sicrhau ei bod yn gydradd ag unrhyw Gomisiynydd newydd y DU.**

***Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol***

O ran Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM) Llywodraeth y DU, clywsom gan dystion am bryderon yn ymwneud â diffyg nodi achosion, a diffyg hyfforddiant ymhlith sefydliadau Ymatebwyr Cyntaf.

Nodwn fod atgyfeirio at y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol yn wirfoddol ac, o'r herwydd, mae llawer o oroeswyr caethwasiaeth yn dewis peidio â chyfeirio eu hunain oherwydd eu bod yn ofni alltudiaeth, erlyniad neu ddial gan gangiau troseddol. Heb atgyfeirio, fodd bynnag, ni all dioddefwyr gael mynediad at wasanaethau cymorth hanfodol.

Mae'r ddarpariaeth atgyfeirio gwirfoddol hefyd yn golygu nad yw'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol yn cofnodi data mewn perthynas â'r goroeswyr hynny sydd wedi bod yn destun rhyw fath o ymyriad, ond nad ydynt wedi cyfeirio eu hunain. Ar y pwynt hwn, dywedodd Barnardos Cymru wrthym ei fod yn pryderu'n fawr am amcangyfrifon diweddar, nad yw 65% o gyfanswm nifer y dioddefwyr masnachu pobl posibl yn cael eu cofnodi yn y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol.

O ran hyfforddiant, clywsom rywfaint o dystiolaeth o ddiffyg hyfforddiant ar gyfer Ymatebwyr Cyntaf mewn perthynas â defnyddio'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol. Wrth ymateb i hyn, dywedasoch wrthym fod rhaglen hyfforddi yn cael ei chyflwyno ar draws Cymru a fydd yn sicrhau bod gan ymarferwyr rheng flaen y ddealltwriaeth a'r hyder i ymdrin ag achosion o gaethwasiaeth, ac i adrodd yn eu cylch.

**Credwn y dylai Llywodraeth Cymru fynegi pryderon gyda Llywodraeth y DU ynghylch gweithrediad y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, yn arbennig o ran natur wirfoddol y cyfeiriadau, effaith y diffyg nodi achosion, a phwysigrwydd hyfforddiant digonol. Hoffem gael y wybodaeth ddiweddaraf gennych maes o law am gynnydd y rhaglen hyfforddi genedlaethol.**

## 3. Y Bil ar Gam-drin Domestig, Trais sy'n seiliedig ar Ryw a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru

O ystyried y pryderon cynyddol, yn rhyngwladol ac yn y wlad hon am gaethwasiaeth, gofynasom i chi a oedd hyn yn rhywbeth a fyddai'n cael ei gynnwys o fewn cwmpas y Bil sydd ar y gweill gan Lywodraeth Cymru ar drais sy'n seiliedig ar ryw. Rydych yn cadarnhau mai eich "bwriad yw cael caethwasiaeth yn y Bil". Ewch ymlaen i ddweud mai'r "agwedd bwysicaf ar y ddeddfwriaeth yw sicrhau ein bod yn cael y gwasanaethau mwyaf priodol ar gyfer dioddefwyr a dioddefwyr posibl. Rydym yn edrych ar sut y mae'r cyrff cyhoeddus perthnasol yn mynd i'r

afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. (…). O fewn hynny, gallwn yn sicr edrych ar gaethwasiaeth a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu i gefnogi pobl sy'n gaethweision."

Cadarnhawyd hefyd eich bod yn edrych ar y Mesur o ran addysg, yn enwedig mewn perthynas ag addysgu pobl ifanc am berthnasoedd iach, ac y gallech ystyried caethwasiaeth o fewn y cyd-destun hwnnw.

Mae'n hanfodol bod caethwasiaeth yn cael ei gydnabod fel ffurf o drais ar sail rhyw. Gyda hyn mewn golwg, rydym yn croesawu bod caethwasiaeth yn cael ei gynnwys o fewn cwmpas Adolygiad diweddar Llywodraeth Cymru o Wasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. **Credwn y dylai'r Bil ar Gam-drin Domestig, Trais sy'n seiliedig ar Ryw a Thrais Rhywiol sydd ar y gweill gan Lywodraeth Cymru wneud darpariaeth benodol mewn perthynas â chaethwasiaeth, yn enwedig o ran yr agweddau ar y Mesur a fydd yn darparu ar gyfer rhaglenni addysg a hyfforddiant ar gyfer staff rheng flaen.**

## 4. Cymorth i Ddioddefwyr

Clywsom dystiolaeth gan yr ymatebwyr fod bylchau yn y gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd, a hynny yn ddaearyddol ac yn ddemograffig.

### *Cysondeb Daearyddol*

Dywedodd tystion, gan gynnwys Barnardo's Cymru, wrthym eu bod yn cael eu calonogi o weld Grwpiau Atal Masnachu mewn Pobl lleol yn cael eu sefydlu drwy'r wlad. Fodd bynnag, mynegwyd rhai pryderon nad oedd hyn yn wir ledled Cymru, gyda rhai ardaloedd o Gymru heb grwpiau o'r fath o gwbl. Ar y pwynt hwn, cyfeiriodd Barnardos Cymru a Bawso fel ei gilydd at y "loteri cod post" o ran ymatebolrwydd a darpariaeth gwasanaethau.  Clywsom hefyd gan Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu am anghysonderau o ran rhannu gwybodaeth, rhannu cudd-wybodaeth a strwythurau ar draws ardaloedd awdurdodau lleol.

**Rydym am dynnu eich sylw at y dystiolaeth hon, a gofynnwn i chi roi ystyriaeth i'r angen am gysondeb daearyddol o ran darparu gwasanaethau atal caethwasiaeth ar draws Cymru, a gwell trefniadau rhannu gwybodaeth gan awdurdodau lleol.**

### *Adeiladau*

Clywsom dystiolaeth am bryderon am y ddarpariaeth llety diogel i ddynion sy'n ddioddefwyr yn sgîl masnachu mewn pobl sydd, yn ôl Bawso, yn cynrychioli "40%

o'r achosion". Wrth ymateb i hyn, dywedasoch wrthym nad oes unrhyw lety diogel pwrpasol yng Nghymru sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth y DU, ar gyfer goroeswyr gwrywaidd. Dywedasoch bod telerau contract Bawso yn ei alluogi i ddarparu llety gwely a brecwast a gwasanaethau cymorth eraill yn lleol i oroeswyr gwrywaidd os oes angen, ond dim ond os ydynt mewn perygl.

Yn ychwanegol at hyn, dywedasoch wrthym, er bod llety i ddioddefwyr yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth y DU o dan gontract, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu prosiect penodol yng ngogledd Cymru, sef prosiect 'Diogel', ers 2010 ar gyfer goroeswyr benywaidd a phlant.

Er ein bod yn deall bod llety diogel i ddioddefwyr caethwasiaeth yn cael ei ddarparu o dan gontract gan Lywodraeth y DU, mae Llywodraeth Cymru wedi dewis darparu llety i fenywod yng ngogledd Cymru. Credwn y dylai gwasanaethau cyfatebol fod ar gael ar gyfer dynion.

**Credwn fod angen i Lywodraeth Cymru wneud rhagor i wella darpariaeth llety diogel, yn arbennig ar gyfer dynion sydd wedi goroesi caethwasiaeth.**


### *Plant a Phobl Ifanc*

Clywsom dystiolaeth am gyfleoedd sydd ar gael ar gyfer ymyriadau i ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc sy'n cael eu masnachu mewn mannau lle ceir mynediad i'r DU, gan gynnwys Operation Paladin ym Maes Awyr Heathrow. Dywedwyd wrthym hefyd am wersi y gellid eu dysgu o'r gwaith sy'n digwydd yn yr Alban mewn perthynas â gwarcheidiaeth o blant dan oed sydd ar eu pen eu hunain. Awgrymodd tystion y gallai dulliau a gwasanaethau tebyg fod ar gael ym mhob porthladd a maes awyr yng Nghymru a ledled y DU. Ar y pwynt hwn, dywedasoch wrthym fod y cynllun gwarcheidwad yn yr Alban "yn syniad da" ac roeddech yn cynllunio i ymweld â'r Alban i weld y cynllun ar waith.

**Rydym yn cefnogi'r egwyddor o gynllun gwarcheidiaeth gyfer plant dan oed sydd ar eu pen eu hunain, ac yn credu y dylech roi ystyriaeth i sefydlu cynllun o'r fath yng Nghymru, yn arbennig o gofio’r pryderon a godwyd gan elusennau plant ynghylch asesiadau o oedran a mynediad plant at wasanaethau.**

Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ymdrin â phob un o'r materion a amlinellir uchod yn eich ymateb. Edrychaf ymlaen at glywed oddi wrthych.

Yn gywir



**Christine Chapman AC / AM**
**Cadeirydd / Chair**